

Arloesedd | Creadigrwydd | Arweinyddiaeth | Trugaredd

Lansio Gwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd Cymru 2021

Dyddiad cau: 10 Medi 2021

Seremoni wobrwyo: 26 Tachwedd 2021

Rydym yn croesawu ceisiadau i'r wyth categori sydd wedi'u disgrifio yma – chwech ar gyfer gwyddonwyr gofal iechyd cymwys a gweithwyr proffesiynau perthynol i iechyd, un i fyfyrwyr, ac un i weithwyr cymorth. Ewch i <https://ahawales.awardsplatform.com/> i gofrestru ac i gyflwyno'ch cais ar-lein.

Mae categorïau'r gwobrau, y meini prawf beirniadu a'r datganiadau cyflwyno wedi'u rhestru yma fel y gallwch weld yr hyn sydd ei angen ac i'ch galluogi i baratoi eich cyflwyniadau all-lein.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 17:00 ddydd Gwener, 10 Medi 2021.

Gwobrau ar agor i wyddonwyr gofal iechyd cymwys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd

Categori 1.

Y WOBR AR GYFER FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru, Is-adran y Rhaglen Trawsnewid



Categori 2.

Y WOBR AR GYFER ARWEINYDDIAETH A RHEOLI NEWID

Wedi'i noddi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru



Categori 3.

Y WOBR AR GYFER GWELLA CANLYNIADAU IECHYD Y CYHOEDD

Wedi'i noddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru



Categori 4.

THE AWARD FOR OUTSTANDING CONTRIBUTION TO RESEARCH DELIVERY

Wedi'i noddi gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



Categori 5.

Y WOBR AR GYFER RHAGORIAETH MEWN ADSEFYDLU

Wedi'i noddi gan Attend Anywhere



Categori 6.

Y WOBR AR GYFER ARLOESED DIGIDOL A THECHNOLEG

Wedi'i noddi gan Blue Prism



Gwobrau ar agor i staff cymorth, cymdeithion a phrentisiaid sy'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr gofal iechyd

Categori 7.

Y WOBR AR GYFER CYFLAWNIAD RHAGOROL GAN WEITHIWR PROFFESIYNOL PERTHYNOL I IECHYD NEU BRENTIS, GWEITHIWR CYMORTH, CYNORTHWYDD NEU GYDYMAITH GWYDDOR GOFAL IECHYD

Wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru



Gwobrau ar agor i fyfyrwyr gwyddor gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd

Categori 8.

Y WOBR AR GYFER Y PROSIECT MYFYRWYR RHAGOROL SY'N HELPU CYMRU I SYMUD YMLAEN GYDA'N GILYDD

Wedi'i noddi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru



ENILLYDD CYFFREDINOL

Wedi'i ddewis gan y beirniaid o enillwyr categorïau 1-7.



Y gwobrau mewn manylder

Categori 1: **Y WOBR AR GYFER FFYRDD NEWYDD O WEITHIO**

Wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru, Is-adran y Rhaglen Trawsnewid



Drwy gydol y pandemig COVID-19, mae gwyddonwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol perthynol i ofal iechyd wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio er mwyn caniatáu parhad gwasanaethau hanfodol mewn amgylchedd diogel. Mae'r wobwr hon yn ceisio cydnabod ffyrdd arloesol a newydd o weithio sydd wedi cael eu cyflwyno sy'n adeiladu ar y sylfeini a nodir yn y cynllun Cymru Iachach, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Bydd y syniad sy'n ennill yn chwarae rôl bwysig wrth sefydlogi ac ailadeiladu gwasanaethau, a bydd ganddo'r potensial i gael ei ymgorffori'n gadarn yn ein system.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Syniadau arloesol sydd wedi arwain at ffyrdd newydd neu drawsnewidiol o weithio yn y system iechyd a gofal yn ystod y pandemig COVID-19
- Syniadau sydd â'r potensial i gael eu defnyddio a'u gweithredu'n eang ledled Cymru
- Gwasanaethau sydd wedi cael eu trawsnewid a fydd yn helpu i gynorthwyo wrth sefydlogi ac ailadeiladu'r system iechyd a gofal yng Nghymru.

Datganiadau cyflwyno

1. Dylech grynhoi eich prosiect a'i arwyddocâd mewn hanner cant o eiriau
2. Sut mae eich dull / ei ddull wedi galluogi gwasanaeth hanfodol i barhau yn ystod y pandemig COVID-19 (200 o eiriau)
3. Beth sy'n arloesol yn eich dull / ei ddull? (100 o eiriau)
4. Sut rydych chi / mae ef yn ceisio ymgorffori newid ar gyfer y tymor hwy? (100 o eiriau)
5. Y ffordd rydych chi / mae ef yn batrwm ymddygiad ac yn ysbrydoliaeth i bobl eraill (100 o eiriau).

Categori 2. **Y WOBR AR GYFER ARWEINYDDIAETH A RHEOLI NEWID** Wedi'i noddi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru



Mae'r wobwr hon yn ceisio cydnabod arweinwyr ysbrydoledig sydd wedi grymuso a thrawsnewid llesiant ac ymgysylltiad y gweithlu drwy ddangos newidiadau cadarnhaol yn y staff. Mae enillydd y wobwr yn arwain y ffordd i bobl eraill ac yn gweithredu fel patrwm ymddygiad ar gyfer y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr gofal iechyd, a bydd yn gallu dangos yn weithredol ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y GIG.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Gweledigaeth ac ysgogiad ar gyfer ei wasanaeth
- Gwelliant yn llesiant ac ymgysylltiad y gweithlu
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Datganiadau cyflwyno

1. Beth yw'ch gweledigaeth / ei weledigaeth am y gwasanaeth rydych chi / mae ef yn gweithio ynddo? (100 o eiriau)
2. Sut rydych chi / mae ef wedi gwella llesiant ac ymgysylltiad staff yn eich/ei rôl (200 o eiriau)
3. Y ffordd rydych chi / mae ef yn batrwm ymddygiad ac yn ysbrydoliaeth i bobl eraill (200 o eiriau)
4. Eich/ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth (100 o eiriau).

Categori 3. **Y WOBR AR GYFER GWELLA CANLYNIADAU IECHYD Y CYHOEDD** Wedi'i noddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae gwyddonwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cyflenwi ystod eang o wasanaethau sy'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar wella iechyd a llesiant ledled Cymru. Mae'r wobwr hon yn ceisio cydnabod unigolion neu dimau sy'n chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu a chyflenwi system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar, a/neu sy'n diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd. Mae enillydd y wobwr yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ganlyniadau iechyd y cyhoedd, ac mae'n cefnogi ac yn ysbrydoli'r rheiny o'i gwmpas i wneud yr un peth.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Cyfraniad eithriadol at hyrwyddo, datblygu a gwella canlyniadau iechyd y cyhoedd
- Cyfraniad at ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy a darbodus
- Bod yn batrwm ymddygiad ac ysbrydoli pobl eraill i gyflawni eu gorau.

Datganiadau cyflwyno

1. Dylech grynhai eich prosiect a'i arwyddocâd mewn hanner cant o eiriau
2. Sut mae eich dull chi / ei ddull ef yn cael effaith gadarnhaol ar wella canlyniadau iechyd y cyhoedd yng Nghymru (200 o eiriau)
3. Beth sy'n arloesol yn eich dull / ei ddull a sut mae hyn yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth? (100 o eiriau)
4. Sut bydd y newidiadau hyn yn cyfrannu at system gofal iechyd)
5. Y ffordd rydych chi / mae ef yn batrwm ymddygiad ac yn ysbrydoliaeth i bobl eraill (100 o eiriau).



Categori 4. Y WOBR AR GYFER CYFRANIAD RHAGOROL AT GYFLAWNI YMCHWIL Wedi'i noddi gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



Mae'r wobwr hon yn dathlu cyflawniadau unigolyn neu dîm sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol at gyflawni ymchwil. Mae enillydd y wobwr yn batrwm ymddygiad ar gyfer y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr gofal iechyd, gan ddangos arweinyddiaeth mewn cyflawni ymchwil ledled Cymru.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Effaith yr ymchwil ar gleifion a/neu'r cyhoedd
- Arweinyddiaeth wrth gyflawni ymchwil
- Gweithio ar y cyd yng nghyd-destun Cymru gyfan
- Ymgysylltu a gwella proffil ymchwil ym maes iechyd a/neu ofal cymdeithasol.

Datganiadau cyflwyno

1. Beth oedd yr effaith ar gleifion a/neu'r cyhoedd yn sgil y prosiect ymchwil / y gwasanaethau a ddarparwyd? (e.e. gallai hyn fod cyfleoedd yn cael eu darparu / tegwch mynediad / buddion i iechyd neu ofal cymdeithasol y cyfranogwyr yn sgil yr ymyrraeth) (100 o eiriau)
2. Disgrifiwch rôl arweinyddiaeth yng nghyd-destun cyflawni ymchwil (prosiect neu wasanaethau) (200 o eiriau)
3. Pa strategaethau ar gyfer gweithio ar y cyd ledled Cymru a ddefnyddiwyd a disgrifiwch sut cafodd y rhain eu cyflawni (200 o eiriau)
4. Disgrifiwch eich dull o ymgysylltu a gwella proffil cyflawni ymchwil ym maes iechyd (100 o eiriau).

Categori 5. Y WOBR AR GYFER CYDNABOD CYFLAWNIAD MEWN ADSEFYDLU Wedi'i noddi gan Attend Anywhere



Mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld cynnydd mewn ffocws ar adsefydlu ledled Cymru mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Mae adsefydlu yn gofyn am ddull bioseicogymdeithasol i alluogi pobl i barhau mor annibynnol â phosib ac i'w cefnogi i adfer fel y gallant gyfranogi mewn rolau bywyd ystyrion, gan gynnwys addysg a gwaith. Mae'r wobwr hon yn dathlu timau sydd wedi cofleidio gweithio integredig, ac sy'n torri strwythurau a ffiniau sefydliadol traddodiadol a ffyrdd newydd o weithio i gyflawni adfer ar y cyd sydd wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael effaith fesuradwy ar iechyd a llesiant eu defnyddwyr gwasanaethau.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithwyr.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Ffyrdd integredig o weithio
- Gweithio ar draws strwythurau a ffiniau sefydliadol (mewnol ac allanol)
- Arfer arloesol a/neu ddefnydd arloesol o dechnoleg
- Cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau
- Gwerthuso gwasanaethau mewn modd cadarn.



Datganiadau cyflwyno

1. Dylech grynhoi eich ymyrraeth adsefydlu, ei phoblogaeth darged, a'i nodau (100 o eiriau)
2. Dylech ddisgrifio sut rydych wedi ymgysylltu â'r grŵp poblogaeth er mwyn deall eu hanghenion (50 o eiriau)
3. Dylech ddisgrifio sut rydych wedi addasu i weithio mewn ffordd fwy integredig, gweithio ar draws strwythurau a ffiniau sefydliadol, a/neu ddefnyddio technoleg (200 o eiriau)
4. Dylech amlinellu canlyniadau a buddion, gan gynnwys effeithiolrwydd cost (200 o eiriau)
5. Beth yw'r negeseuon allweddol i eraill sy'n dymuno gwneud rhywbeth tebyg? (100 o eiriau).

Categori 6. Y WOBR AR GYFER ARLOESED DIGIDOL A THECHNOLEG Wedi'i noddi gan Blue Prism



Mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu mabwysiadu'n gyflym dechnoleg ddigidol a newidiadau i'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o wasanaethau wedi cyflwyno systemau newydd sydd nid yn unig yn ymateb i fodloni gofynion/effaith y pandemig, ond hefyd yn cyfrannu at drawsnewidiadau tymor hwy iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r wobwr hon ar agor i wyddonwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (unigolion neu dimau) sy'n gallu dangos rhagoriaeth yn y ffordd maent wedi defnyddio technoleg ddigidol i drawsnewid cyflenwi gwasanaethau i wella ansawdd ac effeithlonrwydd a phrofiadau pobl, yn ogystal â chefnogi gofal mwy integredig, gan wella iechyd a llesiant pobl. Mae'r wobwr hon yn agored i wasanaethau rheng flaen i gleifion a'r rheiny sy'n cefnogi ymyriadau pobl eraill. Mae'r cwmpas yn cynnwys y defnydd o waith digidol a thechnoleg ar gyfer cyfathrebu, diagnosteg, ymyriadau, a dehongli/rheoli data er budd clinigol.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Ymrwymiad i arloesedd digidol
- Gweithrediad a chyflwyniad llwyddiannus system neu wasanaeth digidol
- Cydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau sy'n rhan o'r datblygiad (gwasanaethau neu gleifion/ofalwyr eraill)
- Gwerthusiad cadarn o fuddion / gwelliannau i wasanaethau
- Ymdrechion i leihau allgau digidol a mwyafu tegwch (lle y bo'n berthnasol)
- Cynlluniau i adeiladu ymhellach ar yr arloesedd hwn i gynnig gwelliant parhaus, gan gynnwys y potensial i gefnogi newid digidol ar raddfa fwy
- Tystiolaeth o rannu, lledaenu'r gwersi a ddysgwyd, ac arfer da.

Datganiadau cyflwyno

1. Dylech grynhoi eich ymyriad digidol, gan gynnwys unrhyw agweddau arloesol, ei boblogaeth darged, a'i nodau (200 o eiriau)
2. Disgrifiwch sut rydych wedi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau (cleifion, gofalwyr neu glinigwyr) er mwyn deall eu hanghenion (100 o eiriau)
3. Amlinellwch ganlyniadau a buddion eich ymyriad digidol, gan gynnwys effeithiolrwydd cost (200 o eiriau)
4. Sut rydych wedi rhannu canlyniadau? Beth yw'r negeseuon allweddol i bobl eraill sy'n dymuno gwneud rhywbeth tebyg? (100 o eiriau).

**Categori 7. Y WOBR AR GYFER CYFLAWNIAD RHAGOROL GAN WEITHIWR
PROFFESIYNOL PERTHYNOL I IECHYD NEU BRENTIS, GWEITHIWR CYMORTH,
CYNORTHWYDD NEU GYDYMAITH GWYDDOR GOFAL IECHYD**
Wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru



Mae'r wobwr hon ar agor i brentisiaid, gweithwyr cymorth, ymarferwyr cynorthwyol, technegwyr, neu eraill sydd â theitl tebyg sy'n gweithio mewn proffesiwn perthynol i iechyd neu wasanaeth gwyddor gofal iechyd. Mae'n ceisio cydnabod ac annog eu cyfraniad cynyddol i wella canlyniadau i ddinasyddion drwy ddathlu unigolyn sy'n darparu, neu sy'n helpu i ddarparu, gofal creadigol o safon sy'n gwella ansawdd bywyd y dinesydd.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig neu gallwch enwebu cydweithiwr neu aelod o'i dîm.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Ymrwymiad eithriadol: patrwm ymddygiad i bobl eraill
- Gweithio mewn tîm i ddarparu gofal o safon
- Cynnwys dinasyddion, buddion i'r dinesydd.

Datganiadau cyflwyno

1. Ym mha ffyrdd y mae'r unigolyn hwn yn disgleirio? (100 o eiriau)
2. Nodwch rai enghreifftiau o'i gyfraniad penodol at ofal dinasyddion (200 o eiriau)
3. Beth sy'n ei wneud yn aelod arbennig o'r tîm? (100 o eiriau).

**Categori 8. Y WOBR AR GYFER Y PROSIECT MYFYRWYR RHAGOROL SY'N HELPU
CYMRU I SYMUD YMLAEN GYDA'N GILYDD**
Wedi'i noddi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru



Mae'r wobwr hon yn ceisio cydnabod prosiect gan fyfyrwr gwyddor gofal iechyd neu broffesiwn perthynol i iechyd (israddedig neu feistr) sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth go iawn i'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau. Bydd y prosiect arobryn yn dangos meddwl newydd a syniadau ffres a allai gael eu rhoi ar waith mewn amrywiaeth o leoliadau i wella'r gwasanaeth.

Gall y wobwr hon fod yn hunan-enwebedig (gydag ardystiad gan diwtor/rheolwr/goruchwyliwr) a chroesewir enwebiadau gan diwtoriaid, goruchwylwyr lleoliadau a chymheiriaid.

Meini prawf

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth o'r canlynol:

- Prosiect wedi'i gwblhau â chasgliadau clir
- Yn ymgysylltu â pholisïau a blaenoriaethau gofal iechyd Cymru
- Gwreiddioldeb a meddwl ffres
- Dichonolrwydd, tebygolrwydd y caiff ei weithredu
- Effaith ar ofal cleifion.

Datganiadau cyflwyno

1. Disgrifiwch yn fyr y prosiect a'i gasgliadau (100 o eiriau)
2. Beth yw cefndir y prosiect: pa broblem yr oedd yn ceisio mynd i'r afael â hi a sut cafodd ei wneud? (200 o eiriau)
3. Beth sy'n arloesol yn y dull a/neu'r casgliadau? (100 o eiriau)
4. Beth yw effaith y prosiect ar wella gwasanaethau? (100 o eiriau).

ENILLYDD CYFFREDINOL

Wedi'i ddewis o enillwyr categorïau 1-7.



Arloesedd | Creadigrwydd | Arweinyddiaeth | Trugaredd

“ Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein trydedd raglen o wobrau cenedlaethol. Rydym yn gofyn i chi ein cefnogi wrth gydnabod a dathlu cyflawniadau ein proffesiynau ledled Cymru.



Ruth Crowder



Prif Gyngorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Llywodraeth Cymru

“ Cyfle i dathlu popeth sy'n cael ei wneud yn feunyddial yn ein gwasanaeth iechyd cenedlaethol ledled Cymru.



Yr Anrhydeddus Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru



Dr Rob Orford
Y Prif Gyngorydd Gwyddonol dos Iechyd



Mae Chamberlain Dunn yn gwmni cyfathrebu arobryn sydd, am y 25 mlynedd diwethaf, wedi helpu sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol i gyrraedd eu cynulleidfaoedd allweddol er mwyn darparu negeseuon cryf ac effeithiol iddynt. Rydym yn cynllunio ac yn cyflawni ymgyrchoedd sy'n cynnwys brandio, logos, deunyddiau marchnata, gweithgarwch yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau o bob math – yn fyw, yn rhithwir neu'n hybrid. Mae ein rhaglenni gwobrau'n cynnwys Arloesi mewn Gofal Iechyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwyddonwyr gofal iechyd, Gwobrau Rhagoriaeth HPMA ar gyfer rheoli pobl, y Rhwydwaith Rhagnodi Cymdeithasol, Gwobrau Arloesi ar gyfer Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU, a llawer o rai eraill.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â

Rachael Fisher

020 8334 4500

rachael@chamberdunn.co.uk

www.ahawards.co.uk

 @AHAwards



www.chamberlainedunn.co.uk
The Old Candlemakers, West Street,
Lewes BN7 2NZ